**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Mawrth 2017

Annwyl Huw

**Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am eich adroddiad ar y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (y Bil).

Rwyf wedi ystyried argymhellion y pwyllgor a, chyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol, roeddwn yn credu y byddai'n ddefnyddiol darparu rhagor o wybodaeth a phwyntiau o eglurhad.

O blith y 12 argymhelliad yn yr adroddiad, gallaf dderbyn 10 ohonynt.

Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid ar wahân yn amlinellu fy ymatebion i 24 o argymhellion y Pwyllgor hwnnw, a gallaf dderbyn 23 o'r rheini.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth yn y llythyr hwn yn helpu i lywio gwaith craffu pellach ar y Bil wrth iddo symud ymlaen drwy Gyfnod 2.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir



**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

**Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) - Cyfnod 1**

**Argymhellion adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Argymhelliad 1**
Yn ystod dadl Cyfnod 1, rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio:
- Ei gyfiawnhad dros gynnwys pwerau Harri'r VIII yn helaeth yn y Bil;
- Pa ddulliau gwahanol a gafodd eu hystyried ganddo wrth ddrafftio'r Bil (yn hytrach na defnyddio pwerau Harri'r VIII yn helaeth);
- Wrth ddefnyddio pwerau Harri'r VIII mewn ffordd fwy cyfyng nag yn neddfwriaeth bresennol y DU, pa bwerau nad oes ganddo bellach sy'n parhau yn neddfwriaeth y DU

Yn ystod fy sesiwn dystiolaeth ar 9 Ionawr, eglurais mai'r man cychwyn wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon oedd cynnwys darpariaethau sylweddol ar wyneb y Bil oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Rydym yn credu bod y dull hwn yn gwella hygyrchedd y maes cymhleth hwn o'r gyfraith drwy sicrhau bod y disgwyliadau o ran Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a'r trethdalwr mor glir â phosibl, gan adlewyrchu dull y mae Cymru eisiau ei fabwysiadu tuag at gasglu a rheoli trethi.

O gymharu â deddfwriaeth y dreth dirlenwi yn y DU a'r Alban, rydym wedi cynnwys mwy o ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol - meysydd sydd eisoes yn cael eu cwmpasu gan is-ddeddfwriaeth, canllawiau neu hysbysiadau mewn mannau eraill. Er enghraifft, darpariaethau'n ymwneud â phwyso, disgownt mewn cysylltiad â dŵr, ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwaredu, llwythi cymysg, gweithgareddau rhagnodedig ac anfonebau tirlenwi. Mae pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn mynd law yn llaw â'r meysydd hyn o'r Bil er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn ymarferol ac yn hirhoedlog.

Golyga hyn fod y Bil yn cynnwys nifer sylweddol o bwerau sy'n caniatáu diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Nid yw'r penderfyniad hwn wedi cael ei wneud ar chwarae bach ond mae'n seiliedig ar ystyriaeth o'r hyn sy'n ofynnol o dan yr amgylchiadau; a oes rheswm da dros ddefnyddio pŵer ac a yw'n gam cymesur i'w gymryd. Rydym wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng system dreth dryloyw a sicrhau bod digon o hyblygrwydd i ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol, boed yn ddatblygiadau economaidd, technolegol neu rai sy'n deillio o ddatblygiadau yn Lloegr, y bydd angen i ni ymateb yn gyflym iddynt o bosibl.

Mae hefyd yn bosibl y gall fod angen inni newid y gyfraith i ymateb i gyfraith achos gan fod ymgyfreitha wedi bod yn nodwedd o'r dreth yn y DU. Ni fydd creu pwerau o'r fath yn y Bil hwn yn gysyniad newydd i ymarferwyr y dreth dirlenwi gan eu bod yn rhan o ddeddfwriaeth dirlenwi yn y DU a'r Alban.

Y dewis arall yn hytrach na chynnwys pwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yw cynnwys darpariaeth sylweddol mewn is-ddeddfwriaeth, ond, fel yr esboniais yn fy sesiwn dystiolaeth, nid dyma'r dull yr ydym yn ei ffafrio. Gallem hefyd ddefnyddio'r broses deddfwriaeth sylfaenol, sydd, ym mhob rhan o'r DU, yn drwm ar adnoddau ac yn llafurus. Gan mai dim ond dwy dreth ddatganoledig sydd hyd yma mae'n annhebygol, ar hyn o bryd, y bydd angen gwneud newidiadau'n ddigon rheolaidd i gyfiawnhau bil cyllid blynyddol.

Rydym wedi ceisio cynnwys pwerau cymharol-benodol wedi'u teilwra, i ddiwygio'r darpariaethau yn y Bil er mwyn sicrhau ein bod mor dryloyw â phosibl ynghylch sut y

gellid arfer y pwerau, ond gan gadw'r hyblygrwydd sydd ei angen arnom. Mewn rhai achosion, gellir cymharu hyn yn uniongyrchol â'r dull a fabwysiadwyd yn neddfwriaeth bresennol y DU - adran 4(1) (gwaredu deunydd drwy dirlenwi), er enghraifft.

Fodd bynnag, mae gennym gyfres o bwerau i ddiwygio darpariaethau'n ymwneud â'r hyn sydd o fewn cwmpas y dreth (gweler adran 6(4) (diffiniad o waredu deunydd fel gwastraff); adran 12(1) (esemptiadau) ac adran 32 (rhyddhadau) lle mae deddfwriaeth y DU yn cymryd un pŵer eang i amrywio a ddylid trin gwarediad fel gwarediad trethadwy (adran 46 o Ddeddf Cyllid 1996). Nid ydym yn teimlo bod hyn yn golygu bod gennym lai o bwerau na'r rhai sy'n bodoli yn neddfwriaeth y DU. Rydym yn credu bod ein dull yn sicrhau cyfatebiaeth well rhwng pob pŵer a'i ddiben.

**Argymhelliad 2**
Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfiawnhau'r defnydd o bob un o bwerau Harri'r VIII sydd yn y Bil yn ystod dadl Cyfnod 1.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac yn cynnwys atodiad sy'n rhoi amlinelliad i'r pwyllgor o bob un o bwerau Harri'r VIII sydd yn y Bil. Rwyf wedi nodi'r dull a fabwysiadwyd yn y DU a'r Alban mewn achosion lle ceir darpariaethau cyfatebol.

**Argymhelliad 3**
Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan yn ystod dadl Cyfnod 1 a yw'n bwriadu cyflwyno Bil ariannol blynyddol yn y dyfodol er mwyn newid y gyfraith sy'n ymwneud â threthi.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas ag argymhelliad pedwar y pwyllgor hwnnw, sy'n gofyn am ymrwymiad tebyg ac rwy'n ailadrodd fy ymateb yma er hwylustod.

O ystyried lefel y trethiant sydd wedi ei ddatganoli ar hyn o bryd – bydd y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yn cael eu datganoli ym mis Ebrill 2018 – byddai'n anghymesur ar yr adeg hon ystyried cyflwyno bil cyllid blynyddol i ystyried newidiadau deddfwriaethol i drethiant yn rheolaidd.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r pwyllgor cyllid i hybu'r agenda hon wrth i gyfrifoldebau cyllidol Cymru gynyddu – bydd cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu cyflwyno o fis Ebrill 2019.

**Argymhelliad 4**
Yn ystod dadl Cyfnod 1, rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio hyd a lled y pŵer i wneud rheoliadau a geisir o dan adran 4(3). Yn benodol, dylai ddatgan pa ddeddfiadau eraill sy'n ymwneud â'r dreth y gellid eu diwygio.

Mae'r pŵer yn adran 4(3) yn caniatáu i'r diffiniad o "waredu deunydd drwy dirlenwi" gael ei ddiwygio. Mae'r pŵer yn darparu y gellid gwneud diwygiad o'r fath drwy ddiwygio adran 4 neu unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â'r dreth. Ceir pŵer cyfatebol yn neddfwriaeth dirlenwi y DU (adran 65 o Ddeddf Cyllid 1996, lle y gellir gwneud diwygiad ym mha fodd bynnag y gwêl Trysorlys Ei Mawrhydi yn dda) ac yn neddfwriaeth yr Alban (adran 5 Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014, sy'n caniatáu ar gyfer addasu unrhyw ddeddfiad).

Mae mabwysiadu pwerau casglu a rheoli trethi yng Nghymru yn faes newydd o ddeddfwriaeth i Gymru ac ni allwn ragweld yn llawn pa newidiadau y bydd eu hangen yn

y dyfodol tan ein bod yn gweithredu'r ddwy dreth newydd - y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) - ac wedi dysgu o'r profiad hwnnw.

Nid yw'r amgylchiadau a'r adeg y byddai'r pŵer hwn yn cael ei arfer yn hysbys eto. Pe bai angen diwygiad, mae'n bosibl y gallai olygu diwygio deddfiad arall sy'n ymwneud â'r LDT, megis Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 neu is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r LDT.

**Argymhelliad 5**
Yn ystod dadl Cyfnod 1, rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfiawnhau defnyddio’r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer gwneud y gyfres gyntaf o reoliadau o dan adrannau 14 a 45, yn hytrach na phennu’r cyfraddau treth ar wyneb y Bil

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas ag argymhelliad tri y pwyllgor hwnnw, sy'n gofyn am ymrwymiad tebyg ac rwy'n ailadrodd fy ymateb yma er hwylustod.

Fel y soniwyd yn gynharach yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor, fy man cychwyn oedd cynnwys darpariaethau sylweddol ar wyneb y Bil lle bynnag y bo'n bosibl. O gymharu â deddfwriaeth y dreth dirlenwi yn y DU a'r Alban, rydym wedi cynnwys mwy o ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys meysydd sydd eisoes yn cael eu cwmpasu gan is-ddeddfwriaeth, canllawiau neu hysbysiadau. Mae darpariaethau'n ymwneud â phwyso, disgownt mewn cysylltiad â dŵr, ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwaredu, llwythi cymysg, gweithgareddau rhagnodedig ac anfonebau tirlenwi oll yn enghreifftiau o hyn.

Felly dim ond llond dwrn o feysydd sylweddol y mae angen ymdrin â hwy drwy is-ddeddfwriaeth cyn i'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) gael ei gweithredu.

Yng nghyd-destun cyfraddau'r LDT a'r rhestr o ddeunyddiau cymwys, nodwyd y rhain fel meysydd sy'n debygol o fod angen eu hadolygu'n rheolaidd, yn arbennig pan wneir newidiadau i dreth dirlenwi'r DU. Gan y bydd cyfraddau treth dirlenwi presennol y DU yn parhau tan 2018-19 (gan gynyddu yn unol â'r gyfradd chwyddiant), mae'n rhesymol tybio y bydd Trysorlys Ei Mawrhydi yn adolygu ac yn cyhoeddi cyfraddau newydd ar gyfer treth dirlenwi y DU. Yn ogystal, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi nodi eu bod yn bwriadu adolygu'r rhestr o ddeunyddiau cymwys eleni.

Amlinellais yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor fy rhesymau dros beidio â rhoi'r cyfraddau treth ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, rwy'n derbyn argymhelliad y pwyllgor i wneud ymrwymiad - tebyg i'r un yr wyf eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r dreth trafodiadau tir - i gyhoeddi'r cyfraddau treth arfaethedig erbyn 1 Hydref 2017 gyda'r nod o gyflwyno rheoliadau ar ôl Cyllideb Hydref Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn llywio ymhellach y gwaith o gynllunio busnes a buddsoddi yn y sector gwastraff, yn ogystal â sicrhau bod gennyf yr hyblygrwydd y nododd rhanddeiliaid y bydd ei angen er mwyn ymateb yn gyflym pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cyfraddau treth cyn cyflwyno'r LDT ym mis Ebrill 2018.

**Argymhelliad 6**
Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i adran 15 o’r Bil er mwyn rhoi rhestr o ddeunydd cymwys ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 7**
Gellid ychwanegu at y rhestr sydd wedi’i chynnwys ar wyneb y Bil yn adran 15 drwy reoliadau sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol (oherwydd, fel y mae

Llywodraeth Cymru yn cydnabod, byddai'n ymwneud â newid y dreth). Gan hynny, rydym yn argymell y dylai bod Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw

Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas ag argymhelliad un ar ddeg y pwyllgor hwnnw, sy'n gofyn am ymrwymiad tebyg ac rwy'n ailadrodd fy ymateb yma er hwylustod

O ran rhoi'r rhestr o ddeunyddiau cymwys ar wyneb y Bil, rwy'n credu bod rhywfaint o werth mewn pennu'r rhestr o ddeunyddiau cymwys ochr yn ochr â'r cyfraddau treth a bod angen rhywfaint o hyblygrwydd yma i allu ymateb i newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, gallaf weld y gallai rhoi deunyddiau cymwys ar wyneb y Bil roi eglurder i weithredwyr safleoedd tirlenwi. Mae angen ystyried a thrafod y manylion ymhellach gyda rhanddeiliaid. Os bydd hyn yn llwyddiannus, byddaf yn cyflwyno gwelliant gan y llywodraeth yn ddiweddarach ym mhroses y Bil.

Mae cysondeb gyda Lloegr yn hyn o beth yn bwysig er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r LDT. Mae angen i'r rhestr yng Nghymru allu cael ei haddasu'n gyflym yn unol â newidiadau a wneir yn y DU ac rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am gydnabod hyn ac awgrymu pe bai deunyddiau cymwys yn cael eu rhoi ar wyneb y Bil, y dylid cael pŵer i wneud rheoliadau i gyd-fynd â hyn er mwyn newid y rhestr.

**Argymhelliad 8**
Os yw Ysgrifennydd y Cabinet yn penderfynu cadw Atodlen 2 ar wyneb y Bil, rydym yn argymell y dylai gyflwyno gwelliant i'r Bil, er mwyn defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol wrth wneud rheoliadau o dan adran 40(9).

Wrth geisio datblygu darn cydlynus o ddeddfwriaeth rydym wedi ceisio cynnwys cymaint â phosibl o fanylion yn y ddeddfwriaeth sylfaenol. Rydym yn credu y bydd hyn yn gwella hygyrchedd y gyfraith mewn maes mor gymhleth. Fodd bynnag, mae rhai materion y mae'n rhaid inni eu cadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth lle ceir rheswm da dros wneud hynny. Er enghraifft, bydd darpariaeth yn ymwneud â chredyd 'dyled ddrwg' yn cael ei wneud mewn rheoliadau oherwydd ei natur dechnegol a'i gymhlethdod.

Gellir disgrifio Atodlen 2 yn briodol fel atodlen sy'n cynnwys darpariaeth weinyddol syml ac mae cynnwys Atodlen 2 ar wyneb y Bil yn cefnogi ymhellach y ddadl ynghylch hygyrchedd yn ein barn ni. Credwn ei bod yn rhesymol cadw darpariaeth o'r fath ar wyneb y Bil.

Nodwn farn y pwyllgor - a'i ragflaenydd - ynghylch defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, eglurodd y Prif Weinidog mewn llythyr i'r pwyllgor bod y dewis o weithdrefn yn cael ei ystyried ar sail teilyngdod pob achos ac yn cael ei lywio gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys natur y pŵer, ei gwmpas tebygol, a'r amgylchiadau lle y gellir defnyddio'r pŵer.

Mae'r weithdrefn negyddol wedi'i rhagnodi ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 40(9) oherwydd ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn "anfoneb dirlenwi" a ddyroddir yn unol ag adran 40 o'r Bil. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu neu ddileu eitemau o'r rhestr o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn 'anfoneb dirlenwi' (fel y nodir yn Atodlen 2).

Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu diddymu Atodlen 2. Ni fyddai unrhyw newidiadau o'r fath yn cael unrhyw effaith sylweddol ar swm y dreth y bydd yn rhaid i drethdalwr ei thalu. Yn fy marn i, mae defnyddio'r weithdrefn negyddol i ddiwygio'r atodlen weinyddol sylfaenol hon yn rhesymol.

Ar y sail hon, ni allaf gefnogi'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9**
Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil, er mwyn defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol wrth wneud rheoliadau o dan adran 59(5).

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 50(9) ac rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Nid wyf yn derbyn y cynnig nad yw'r weithdrefn negyddol byth yn briodol yng nghyd-destun pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (am y rhesymau a nodir yn fy ymateb i argymhelliad wyth uchod) ond rwy'n cydnabod y ffaith bod adran 59 yn ymwneud â rhannu gwybodaeth ag ACC.

Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant gan y llywodraeth mewn perthynas â'r mater hwn yn ystod taith y Bil.

**Argymhelliad 10**
Yn ystod dadl Cyfnod 1, rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfiawnhau pam mae angen cynnwys adran 67(2) yn y Bil a'r pŵer i ddiwygio neu i ddiddymu'r ddarpariaeth honno maes o law gan ddefnyddio adran 67(4). Dylai hefyd nodi i ba raddau y bydd y pŵer hwn i ddiwygio'r ddarpariaeth yn cael ei ddefnyddio.

Rwyf wedi ystyried y darpariaethau a nodir yn adran 67 o'r Bil ymhellach ac rwy'n bwriadu dileu adrannau 67(2) a 67(4) o'r Bil. Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant gan y llywodraeth yng Nghyfnod 2.

**Argymhelliad 11**
Yn ystod dadl Cyfnod 1, rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro'r canlynol:
- Pam mae'n angenrheidiol cael pwerau yn adran 90 sy'n gwneud darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed; a
- Hyd a lled y pwerau hynny i wneud darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed, a sut yn benodol y mae'n bwriadu defnyddio'r holl bwerau hynny.

Mae angen y pŵer hwn i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o hyblygrwydd i ymdrin â materion technegol sy'n deillio o bontio o'r dreth dirlenwi i'r LDT neu faterion a ddaw i'r amlwg ar ôl i'r LDT ddod i rym.

Yn wahanol i Lywodraeth y DU, ni fydd modd inni ddefnyddio unrhyw Fil cyllid blynyddol i wneud y newidiadau hyn drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae felly'n bwysig iawn sicrhau bod y Bil hwn yn cynnwys mesurau sy'n ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

Rhagwelir y bydd unrhyw ddeddfwriaeth a wneir o dan y pŵer hwn yn ymwneud, yn y lle cyntaf, â'r pontio o'r dreth dirlenwi i'r LDT er mwyn i'r broses fod mor ddi-dor â phosibl a bod y gyfraith newydd yn gweithredu yn unol â'r bwriad.

Gellir dibynnu ar y pŵer hefyd i ategu unrhyw bŵer arall i wneud rheoliadau y gellir ei ddefnyddio i ymateb i angen yn y dyfodol (er enghraifft, pe defnyddiwyd adran 12 i gyflwyno esemptiadau newydd o'r LDT, gellid dibynnu ar adran 90 i wneud newid

canlyniadol i'r Bil neu i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi Cymru i sicrhau y gallai'r esemptiad newydd weithredu'n effeithiol).

Rwyf wedi rhoi ein dehongliad ni i'r pwyllgor o'r gwahanol dermau a ddefnyddir er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor i ddeall sut y bydd y ddarpariaeth yn cael ei defnyddio:

Darpariaeth gysylltiedig: Darpariaeth a fydd yn angenrheidiol neu'n fanteisiol i sicrhau bod y Bil yn gweithio'n briodol.
Darpariaeth ganlyniadol: Darpariaeth a fydd yn angenrheidiol neu'n ddymunol yn sgil yr hyn sydd yn y Bil.
Darpariaeth atodol: Darpariaeth sy'n atodi'r Bil drwy ychwanegu materion (gweithdrefnau yn nodweddiadol) sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r hyn sydd yn y Bil.
Darpariaeth drosiannol: Darpariaeth sy'n rheoli'r newid o'r system treth dirlenwi i'r system LDT.
Darpariaeth ddarfodol: Darpariaeth sy'n ddarpariaeth drosiannol ond sy'n gyfyngedig o ran ei hyd, megis darpariaeth a fydd yn dod i ben ar ddiwrnod penodol.
Darpariaeth arbed: Darpariaeth sy'n arbed gweithrediad darn o ddeddfwriaeth bresennol neu reol gyfreithiol bresennol.

**Argymhelliad 12**
Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i’r Bil, er mwyn defnyddio’r weithdrefn gadarnhaol wrth wneud rheoliadau o dan adran 90(1) yn unol ag adran 90(2).

Rwy'n credu os bydd y darpariaethau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, dylai rheoliadau a wneir o dan adran 90 ddilyn y weithdrefn negyddol os nad ydynt yn effeithio ar rwymedigaeth treth person. Os byddant yn creu neu'n cynyddu taliad treth, dylent, ym mhob achos, ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Mae hyn yn dilyn y dull a fabwysiadwyd yn y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

Byddai darpariaeth treth o dan adran 90, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol ond nad yw'n effeithio ar rwymedigaeth treth person, yn newid cul ei effaith a thechnegol. Byddai'n cynnwys newid yr wybodaeth y mae'n rhaid i drethdalwr ei darparu i'r ACC mewn ffurflen dreth.

Ni ellir defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau newydd, sylweddol, nac i wneud newidiadau sylfaenol i ddeddfwriaeth arall nac i ymestyn cwmpas y Bil hwn. Dim ond newidiadau angenrheidiol y gall eu gwneud er mwyn sicrhau bod darpariaethau'r Bil hwn yn gweithio'n iawn. Byddai'r pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer materion fel gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall sydd eu hangen yn sgil darpariaethau'r Bil hwn, neu i ymdrin â manylion nas rhagwelwyd sy'n deillio o weithredu'r system newydd.

Ar y sail hon, ni allaf gefnogi'r argymhelliad hwn.

## ATODIAD B - ARGYMHELLIAD 2

**Bwriad yr atodiad hwn yw amlinellu diben pob un o bwerau Harri'r VIII sydd ym Mil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) a nodi'r dull a fabwysiadwyd yn y DU a'r Alban, mewn achosion lle ceir darpariaethau tebyg.**

**Adran 4 (3) Pŵer i Weinidogion Cymru addasu ystyr gwaredu deunydd drwy dirlenwi.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 4 yn amlinellu ystyr gwaredu deunydd drwy dirlenwi, sef yr amod cyntaf y mae angen ei fodloni o dan adran 3 er mwyn i waredriad fod yn drethadwy.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio ystyr gwarediad drwy dirlenwi.

- Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, boed yn rhai technolegol neu amgylcheddol neu i ystyried y sefyllfa mewn mannau eraill, yn arbennig yn Lloegr.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Mae adran (65)(5) o Ddeddf Cyllid 1996 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i'r Trysorlys er mwyn amrywio ystyr gwarediad drwy dirlenwi ym mha bynnag ffordd y gwêl yn dda (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol dros dro os yw'n gwneud rhywbeth yn warediad trethadwy na fyddai'n warediad trethadwy fel arall a'r weithdrefn negyddol ym mhob achos arall).

- Mae adran 5(6) o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion yr Alban er mwyn amrywio ystyr gwarediad drwy dirlenwi (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol dros dro os yw'n gwneud rhywbeth yn warediad trethadwy na fyddai'n warediad trethadwy fel arall a'r weithdrefn negyddol ym mhob achos arall).

**Adran 6 (4) Pŵer i Weinidogion Cymru addasu ystyr gwaredu deunydd fel gwastraff.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 6 yn amlinellu ystyr gwaredu deunydd fel gwastraff, sef y trydydd amod y mae angen ei fodloni o dan adran 3 er mwyn i warediad fod yn drethadwy.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio ystyr gwaredu deunydd fel gwastraff.

- Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, boed yn rhai technolegol neu amgylcheddol neu i ystyried y sefyllfa mewn mannau eraill, yn arbennig yn Lloegr.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Nid oes pŵer union debyg ond mae pŵer eang i amrywio yn adran 46 o Ddeddf Cyllid 1996 sy'n rhoi pŵer gwneud rheoliadau i'r Trysorlys er mwyn gwneud darpariaeth a fyddai'n arwain at beidio â gwneud gwarediad, a fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy neu wneud gwarediad, na fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy, ym mha bynnag ffordd y gwêl yn dda (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol dros dro os yw'n gwneud rhywbeth yn warediad trethadwy na fyddai fel arall yn warediad trethadwy ac yn amodol ar y weithdrefn negyddol ym mhob achos arall).

- Nid oes pŵer union debyg ond mae pŵer eang i amrywio yn adran 11 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) sy'n rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion yr Alban er mwyn gwneud darpariaeth a fyddai'n arwain at beidio â gwneud gwarediad, a fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy neu wneud gwarediad, na fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy(yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol).

**Adran 8 (5) Pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu bod gweithgarwch safle tirlenwi i fod yn weithgarwch safle tirlenwi penodedig neu i beidio â bod yn weithgarwch safle tirlenwi penodedig neu i addasu’r disgrifiad o weithgarwch safle tirlenwi penodedig.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae adran 8 yn cynnwys rhestr o weithgareddau safle tirlenwi a fydd yn cael eu trin fel gweithgaredd trethadwy, p'un a gaiff yr amodau ar gyfer gwarediad trethadwy o dan adran 3 eu bodloni ai peidio.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r rhestr o weithgareddau safleoedd tirlenwi neu ddisgrifiad o'r gweithgareddau sydd ar y rhestr honno neu ddileu gweithgareddau o'r rhestr honno.

- Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, boed yn rhai technolegol neu amgylcheddol neu i ystyried y sefyllfa mewn mannau eraill, yn arbennig yn Lloegr, neu i ymdrin â gweithgaredd osgoi posibl.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Mae rhestr gyfatebol o weithgareddau penodedig wedi'i chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn y DU (*Gorchymyn Treth Dirlenwi (Gweithgareddau Safleoedd Tirlenwi Rhagnodedig*) 2009/1929); gwneir y rheoliadau hyn o dan bŵer gwneud gorchmynion a roddir yn adran 65A o Ddeddf Cyllid 1996.

- Mae rhestr gyfatebol o weithgareddau penodedig wedi'i chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn yr Alban (*Gorchymyn Treth Dirlenwi (Gweithgareddau Safleoedd Tirlenwi Rhagnodedig*) 2014/367); gwneir y rheoliadau hyn o dan bŵer gwneud gorchmynion a roddir yn adran 6 o Ddeddf Cyllid (yr Alban) 2014.

**Adran 12 (1) Pŵer i Weinidogion Cymru greu esemptiad ychwanegol rhag treth, addasu esemptiadau presennol neu ddileu esemptiad. Gall y rheoliadau wneud darpariaeth i esemptiad fod yn berthnasol yn ddarostyngedig i amodau.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Pennod 3 yn Rhan 2 yn darparu ar gyfer esemptiadau rhag treth ar gyfer rhai gwarediadau o ddeunyddiau. Mae hyn yn golygu, er y byddai gwarediad wedi bodloni'r diffiniad o warediad trethadwy yn adran 3, ni chaiff ei drin fel gwarediad trethadwy. Amlinellir dau esemptiad ar hyn o bryd yn adrannau 10 (gwarediadau lluosog deunydd ar yr un safle) ac 11 (mynwentydd anifeiliaid anwes).

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu esemptiadau newydd, addasu'r rhestr o esemptiadau neu'r disgrifiadau o esemptiadau ar y rhestr honno neu ddileu esemptiadau.

- Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, boed yn rhai technolegol, amgylcheddol neu i ystyried y sefyllfa mewn mannau eraill, yn arbennig yn Lloegr.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Nid oes pŵer union debyg ond mae pŵer eang i amrywio yn adran 46 o Ddeddf Cyllid 1996 sy'n rhoi pŵer gwneud rheoliadau i'r Trysorlys er mwyn gwneud darpariaeth a fyddai'n arwain at beidio â gwneud gwarediad, a fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy neu wneud gwarediad, na fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy, ym mha bynnag ffordd y gwêl yn dda (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol dros dro os yw'n gwneud rhywbeth yn warediad trethadwy na fyddai fel arall yn warediad trethadwy ac yn amodol ar y weithdrefn negyddol ym mhob achos arall).

- Nid oes pŵer union debyg ond mae pŵer eang i amrywio yn adran 11 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) sy'n rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion yr Alban er mwyn gwneud darpariaeth a fyddai'n arwain at beidio â gwneud gwarediad, a fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy neu wneud gwarediad, na fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy(yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol).

**Adran 16(4): Pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu at y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gymysgedd o ddeunyddiau cyfradd is a chyfradd safonol fod yn gymwys ar gyfer cyfradd is yr LDT, eu haddasu neu eu dileu. Mae'r pŵer hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach am faterion y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw gofyniad wedi'i fodloni neu er mwyn addasu neu ddileu darpariaeth bresennol am y materion hyn.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 14 yn darparu ar gyfer cyfradd treth is pan fydd gwarediad yn cynnwys deunydd sy'n gyfan gwbl ar ffurf un neu ragor o ddeunyddiau cymwys neu'n gymysgedd cymwys o ddeunyddiau ac mae adran 16 yn cynnwys rhestr o ofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gymysgedd o ddeunyddiau fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd is.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gymysgedd o ddeunyddiau cyfradd is a chyfradd safonol fod yn gymwys ar gyfer cyfradd is yr LDT, eu haddasu neu eu dileu. Mae'r pŵer hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach am faterion y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw gofyniad wedi'i fodloni neu er mwyn addasu neu ddileu darpariaeth bresennol am y materion hyn.

- Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, boed yn rhai technolegol neu amgylcheddol neu i ystyried y sefyllfa mewn mannau eraill, yn arbennig yn Lloegr, ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol.

- Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn a ystyrir yn swm derbyniol o ddeunydd anghymwys (deunydd cyfradd safonol) mewn llwyth cymysg os bydd y llwyth yn cael ei drethu ar y gyfradd is. Mae'r pŵer hwn hefyd yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ymateb os bydd camddefnydd o'r egwyddor sy'n gysylltiedig â llwythi cymysg.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Nid yw'r rheolau'n ymwneud â chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau yn ymddangos mewn deddfwriaeth ond gellir eu cyhoeddi mewn cyfarwyddyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, o dan y pwerau a roddir yn adran 63 o Ddeddf Cyllid 1996.

- Nid yw'r rheolau'n ymwneud â chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau yn ymddangos mewn deddfwriaeth ond gellir eu cyhoeddi mewn cyfarwyddyd gan Revenue Scotland, o dan y pwerau a roddir yn adran 14 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014.

**Adran 21(9): Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chymhwyso disgownt mewn cysylltiad â dŵr yn y Bil LDT.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 21 yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i gytuno ar ddisgownt wrth gyfrifo pwysau trethadwy deunydd mewn gwarediad trethadwy i ystyried y dŵr sy'n bresennol yn y deunydd, yn ddarostyngedig i'r amodau sydd yn yr adran honno.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn y Bil sy'n ymwneud â'r disgownt dŵr.

- Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, boed yn rhai technolegol neu amgylcheddol neu i ystyried y sefyllfa mewn mannau eraill, yn arbennig yn Lloegr, ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol.

- Cynigir y disgownt dŵr hefyd i sicrhau nad oes cymhelliant i weithredwyr leihau'r swm o ddŵr sydd ei angen. Mae'r darpariaethau disgownt dŵr yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r realiti ymarferol na fydd dŵr a ychwanegir yn mynd i'r gell dirlenwi ei hun neu na fydd yn aros ynddi.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn DU (*Rheoliadau Treth Dirlenwi 1996/1527*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 68 o Ddeddf Cyllid 1996.

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn yr Alban (*Rheoliadau Treth Dirlenwi (Gweinyddiaeth) Yr Alban 1996/1527*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 15 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014.

**Adran 32(1) Pŵer i Weinidogion Cymru greu rhyddhad ychwanegol rhag treth, addasu rhyddhad presennol neu ddileu rhyddhad. Gall y rheoliadau wneud darpariaeth i esemptiad fod yn berthnasol yn ddarostyngedig i amodau.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Pennod 3 yn Rhan 3 yn darparu ar gyfer rhyddhadau rhag treth ar gyfer rhai gwarediadau o ddeunyddiau a wneir mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Mae hyn yn golygu, er y byddai gwarediad wedi bodloni'r diffiniad o warediad trethadwy yn adran 3, ni chaiff ei drin fel gwarediad trethadwy gan y bydd wedi'i ryddhau rhag treth. Rhaid hawlio rhyddhadau ar ffurflen dreth.

- Mae pedwar esemptiad ar hyn o bryd sydd wedi'u nodi yn adrannau 26-31.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r rhestr o ryddhadau neu'r disgrifiadau o ryddhadau ar y rhestr hon neu i ddileu rhyddhad. Gall rheoliadau wneud darpariaeth i ryddhad fod yn berthnasol yn ddarostyngedig i amodau.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol megis newidiadau technolegol neu newidiadau polisi, er mwyn cynnig cymhelliant i waredu rhai deunyddiau mewn ffordd gyfrifol.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Nid oes pŵer union debyg ond mae pŵer eang i amrywio yn adran 46 o Ddeddf Cyllid 1996 sy'n rhoi pŵer gwneud rheoliadau i'r Trysorlys er mwyn gwneud darpariaeth a fyddai'n arwain at beidio â gwneud gwarediad, a fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy neu wneud gwarediad, na fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy, ym mha bynnag ffordd y gwêl yn dda (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol dros dro os yw'n gwneud rhywbeth yn warediad trethadwy na fyddai fel arall yn warediad trethadwy ac yn amodol ar y weithdrefn negyddol ym mhob achos arall).

- Nid oes pŵer union debyg ond mae pŵer eang i amrywio yn adran 11 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) sy'n rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion yr Alban er mwyn gwneud darpariaeth a fyddai'n arwain at beidio â gwneud gwarediad, a fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy neu wneud gwarediad, na fyddai fel arall yn warediad trethadwy, yn warediad trethadwy(yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol).

**Adran 40 (9) Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 2.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 40 yn gwneud darpariaeth i dreth gael ei chodi mewn perthynas â'r cyfnod cyfrifyddu y dyroddir yr anfoneb dirlenwi ynddo yn hytrach na'r cyfnod cyfrifyddu y gwneir y gwarediad trethadwy ynddo, ar yr amod bod yr anfoneb dirlenwi yn cael ei dyroddi o fewn 14 diwrnod o warediad ac yn cynnwys yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 2.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r wybodaeth sydd i'w chynnwys ar anfoneb dirlenwi, fel y nodir yn Atodlen 2.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol. Mae'r pŵer hwn yn ofynnol er mwyn diwygio'r manylion technegol sydd eu hangen ar anfoneb tirlenwi. Dim ond pan fydd ymarfer gweithredol yn newid y bydd angen defnyddio'r pŵer hwn ac er mwyn parhau i reoli'r anfoneb dreth yn effeithiol byddai angen i ACC ddiwygio Atodlen 2.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Nodir cynnwys anfoneb dirlenwi mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn y DU (*Rheoliadau Treth Dirlenwi 1996/1527*); wedi'i gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 61 o Ddeddf Cyllid 1996.

- Nodir cynnwys anfoneb dirlenwi mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn yr Alban (*Rheoliadau Treth Dirlenwi (Gweinyddiaeth) yr Alban) 2015/3*).

**Adran 46(3) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i'w drin fel pe bai'n bodloni (neu heb fod yn bodloni) amod ar gyfer codi treth a materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw person yn bodloni (neu heb fod yn bodloni) yr amod hwn.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 46 yn amlinellu'r amgylchiadau lle mae person yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth, y mae angen i ACC fod yn fodlon arno cyn y gall ysgogi rhwymedigaeth ar gyfer LDT mewn perthynas â gwarediad heb ei awdurdodi.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i'w drin fel pe bai'n bodloni (neu heb fod yn bodloni) amod ar gyfer codi treth a materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw person yn bodloni (neu heb fod yn bodloni) yr amod hwn.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol.

- Mae Adran 46 o'r Bil yn nodi'r amgylchiadau pan fo person i'w drin fel pe bai'n bodloni (neu heb fod yn bodloni) amod ar gyfer codi treth a materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw person yn bodloni (neu heb fod yn bodloni) yr amod hwnnw er mwyn penderfynu a yw gwarediad trethadwy at ddibenion gwarediad anawdurdodedig wedi'i wneud. Gellir nodi amgylchiadau newydd gan ACC, er enghraifft o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol. Mae angen y pŵer hwn ar Weinidogion Cymru i ddiogelu'r refeniw, gan sicrhau bod y cydbwysedd o ran risg yn parhau i fod yn uchel ac i annog cydymffurfiaeth.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Nid oes darpariaeth gyfatebol.

**Adran 51 (1) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer dyroddi hysbysiadau rhagarweiniol a hysbysiadau codi treth; talu swm o dreth a godir gan hysbysiad codi treth; unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chodi swm o dreth neu dalu swm o dreth o dan y Bennod hon, neu'n deillio o hynny.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Pennod 2 yn Rhan 4 o'r Bil yn amlinellu'r broses pan fo'n rhaid codi LDT ar warediad heb ei awdurdodi, gan gynnwys y personau a all fod yn atebol a'r hysbysiadau y mae angen i ACC eu dyroddi er mwyn ysgogi rhwymedigaeth i dalu LDT.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r darpariaethau a'r gweithdrefnau y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd o dan y Bennod hon.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, a bod yn berthnasol i warediadau heb eu hawdurdodi, os yw'n briodol. Lle mae arferion gweithredol yn dangos ei bod yn angenrheidiol diwygio'r adran hon o'r Bil, er mwyn sicrhau bod ei amcan o ddarparu fframwaith ar gyfer codi treth ar warediadau heb eu hawdurdodi yn gweithio'n effeithiol. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael offeryn i wneud y newidiadau angenrheidiol hyn er mwyn cryfhau'r rhwystr ariannol i ymgymryd â gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon a mynd i'r afael â ffynhonnell bosibl o efadu treth.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Nid oes darpariaeth gyfatebol.

**Adran 53 (1) Y pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo person i fod â hawlogaeth i gredyd treth mewn cysylltiad â'r dreth.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth i gredydau treth fod ar gael mewn perthynas â'r LDT.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer credydau treth a'r manylion ynghylch sut y byddai unrhyw gredyd yn gweithredu.

- Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i greu credyd ar gyfer ansolfedd cwsmer (a elwir yn gredyd dyled ddrwg ar hyn o bryd o dan y Dreth Dirlenwi), y gellir ei hawlio mewn amgylchiadau lle mae gweithredwr safle tirlenwi wedi rhoi cyfrif am LDT ac wedi ei thalu mewn perthynas â gwarediad ond nad yw wedi cael taliad gan y cwsmer sydd y tu ôl i'r gwarediad hwnnw oherwydd digwyddiad yn ymwneud ag ansolfedd. Byddai'r rheoliadau'n darparu manylion ynghylch pryd y byddai hawlogaeth yn codi a pha amodau a gofynion y byddai angen eu bodloni er mwyn hawlio'r credyd.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Mae Adran 51 o Ddeddf Cyllid 1996 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau mewn perthynas â chredydau ac mae'n cael ei hategu gan adrannau 52 a 53 (y mae pob un ohonynt yn amodol ar y weithdrefn negyddol)

- Mae Adran 18 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau mewn perthynas â chredydau ac mae'n cael ei hategu gan adrannau 19 a 20 (y mae pob un ohonynt yn amodol ar y weithdrefn negyddol).

**Adran 54 (10) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch yr hyn sydd i’w gynnwys mewn hysbysiad dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu o dan adran 54.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 54 yn rhoi'r pŵer i ACC ddynodi rhan o safle tirlenwi awdurdodedig yn ardal nad yw at ddibenion gwaredu drwy ddyroddi hysbysiad i weithredwr safle tirlenwi. Os bydd ACC yn gwneud hynny, mae'r adran hon yn nodi'r hyn y dylai neu y gall hysbysiad ei nodi a'r broses ar gyfer gwneud, amrywio neu ganslo dynodiad.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch yr hyn sydd i’w gynnwys mewn hysbysiad dynodi a ddyroddir o dan yr adran hon.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol. Mae'r darpariaethau dynodi ardal nad yw at ddibenion gwaredu wedi'u bwriadu i ddarparu gwybodaeth i ACC er mwyn galluogi ACC i wahaniaethu rhwng y gweithgareddau hynny ar safle tirlenwi sy'n gyfystyr â gwarediad trethadwy a'r rhai sy'n ddefnydd o anhrethadwy o wastraff. Mae hyn yn bwysig er mwyn pennu'r atebolrwydd treth cywir. Mae angen offeryn ar Weinidogion Cymru i allu adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dyfodol a allai effeithio ar gasglu a rheoli trethi'n effeithlon yng Nghymru.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn DU (*Rheoliadau Treth Dirlenwi 1996/1527*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir ym mharagraff 1A o Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid 1996.

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn yr Alban (*Rheoliadau Treth Dirlenwi (Gweinyddiaeth) Yr Alban 2015/3*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 30 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014.

**Adran 55 (7) Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch amgylchiadau pan na fo'r ddyletswydd i gydymffurfio â hysbysiad dynodi yn berthnasol.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 55(1) yn rhoi dyletswydd ar weithredwr safle tirlenwi i sicrhau bod deunydd yn cael ei drin yn unol â hysbysiad dynodi pan fydd un ar waith ac yn berthnasol. Mae Adrannau 55(2)-(5) yn nodi nifer o eithriadau i'r ddyletswydd hon.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch amgylchiadau pan na fo'r ddyletswydd i gydymffurfio â hysbysiad dynodi yn berthnasol.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn DU (*Rheoliadau Treth Dirlenwi 1996/1527*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir ym mharagraff 1A o Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid 1996.

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn yr Alban (*Rheoliadau Treth Dirlenwi (Gweinyddiaeth) Yr Alban 2015/3*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 30 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014.

**Adran 59 (5) Pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu, addasu neu ddileu cyfeiriad at berson neu at ddisgrifiad o bersonau sydd, yn unol ag adran 59, yn gallu datgelu gwybodaeth i ACC at ddibenion ei gynorthwyo i gasglu a rheoli'r dreth.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 59 yn rhestru'r personau (Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol) sy'n gallu datgelu gwybodaeth i ACC at ddiben ei gynorthwyo i gasglu a rheoli'r LDT.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu, addasu neu ddileu cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o bersonau o dan is-adran (2).

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol - er enghraifft, creu neu uno corff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru.

**Adran 67 (4) Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio neu ddiddymu adran 67(2) fel y byddai cosb wedyn yn berthnasol i achosion unigol o fynd yn groes i'r ddeddfwriaeth, hyd yn oed pe bai'r achosion hynny'n deillio o'r un weithred neu anwaith.**

Fel y nodir mewn ymateb i argymhelled 10 o'r adroddiad, bydd y llywodraeth yn cyflwyno gwelliant yn ystod proses y Bil i ddileu adrannau 67(2) a (4) o'r Bil.

**Adran 72 (1) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch symiau cosbau o dan y Bennod hon neu'r weithdrefn ar gyfer eu hasesu.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Pennod 4 yn Rhan 5 yn nodi cosbau newydd a fydd yn berthnasol yng nghyd-destun LDT (mewn perthynas â chofrestru, pwyso ac ardaloedd nad ydynt at ddibenion gwaredu).

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch symiau'r cosbau hynny neu'r gweithdrefnau ar gyfer eu hasesu. Nid yw'n caniatáu ar gyfer creu cosbau newydd.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, gan gynnwys sefyllfaoedd mewn mannau eraill ac amodau ariannol (ymhen deng mlynedd, efallai y bydd cosb o £300 yn annigonol), yn ogystal â chaniatáu ymateb i wersi a ddysgwyd drwy ymarfer gweithredol, os bydd angen.

- Mae'r pŵer ar gael i, er enghraifft, annog cydymffurfiaeth yng Nghymru lle mae angen, yng ngoleuni profiad gweithredol, cynyddu'r rhwystr neu sicrhau cyffelybiaeth gyda gweddill y DU.

**Adran 80 (1) Pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu at, diwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth a wneir ynglŷn â dynodi grwpiau o gyrff corfforaethol.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae adrannau 76-79 yn ymdrin â phŵer ACC i ddynodi dau neu fwy o gyrff corfforaethol fel grŵp at ddibenion yr LDT; yr amodau a'r broses ar gyfer gwneud hynny a goblygiadau dynodiad o'r fath.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu unrhyw rai o'r darpariaethau hynny ynglŷn â grwpiau o gwmnïau.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth arall yn y maes hwn ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Mae Adran 59 o Ddeddf Cyllid 1996 yn gwneud darpariaeth ar gyfer grwpiau o gwmnïau.

- Mae Adran 38 o Ddeddf Dirlenwi (Yr Alban) 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer grwpiau o gwmnïau.

**Adran 83 Pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu at, unrhyw ddarpariaeth a wneir ynglŷn ag achosion pan fo personau yn rhedeg busnes neu fel corff anghorfforedig, ei diwygio neu ei diddymu.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adrannau 81 ac 82 yn ymdrin â sut y dylai ACC drin partneriaethau neu gyrff anghorfforedig sy'n rhedeg busnes tirlenwi.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu unrhyw rai o'r darpariaethau am bartneriaethau neu gyrff anghorfforedig.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth arall yn y maes hwn ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn DU (*Rheoliadau Treth Dirlenwi 1996/1527*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 58 o Ddeddf Cyllid 1996 (yn amodol ar y weithdrefn negyddol).

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn yr Alban (*Rheoliadau Treth Dirlenwi (Gweinyddiaeth) Yr Alban 2015/3*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 37 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 (yn amodol ar y weithdrefn negyddol).

**Adran 85 Pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu unrhyw ddarpariaeth a wneir ynglŷn ag achosion pan fo person sydd wedi rhedeg busnes tirlenwi yn marw, yn mynd yn analluog neu’n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd, ei diddymu neu ei diwygio fel arall.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Mae Adran 84 yn nodi gweithdrefn lle mae person yn rhedeg busnes tirlenwi person arall sy'n marw, sy'n mynd yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd - o ran gofynion hysbysu ac effaith penderfyniad ACC - i drin y person sy'n rhedeg y busnes fel y person arall.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i addasu unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â'r pwnc hwn.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth arall yn y maes hwn ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn DU (*Rheoliadau Treth Dirlenwi 1996/1527*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 58 o Ddeddf Cyllid 1996 (yn amodol ar y weithdrefn negyddol).

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn yr Alban (*Rheoliadau Treth Dirlenwi (Gweinyddiaeth) Yr Alban 2015/3*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 37 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 (yn amodol ar y weithdrefn negyddol).

**Adran 86 Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau mewn perthynas â'r LDT pan gaiff busnes tirlenwi ei drosglwyddo un person i'r llall fel busnes gweithredol.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â chymhwyso darpariaethau'r LDT os caiff busnes tirlenwi ei drosglwyddo fel busnes gweithredol

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer credydau treth a'r manylion ynghylch sut y byddai unrhyw gredyd yn gweithredu.

- Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei arfer er mwyn gwneud darpariaethau ar gyfer parhau i gymhwyso'r LDT i achosion lle y caiff busnes ei drosglwyddo o un person i'r llall. Bwriedir i'r rheoliadau ragnodi'r weithdrefn hysbysu a fydd yn gymwys i drosglwyddiadau o'r fath a'r hawliadau a'r rhwymedigaethau a gaiff eu trosglwyddo.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn DU (*Rheoliadau Treth Dirlenwi 1996/1527*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 58 o Ddeddf Cyllid 1996 (yn amodol ar y weithdrefn negyddol).

- Ceir darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn yr Alban (*Rheoliadau Treth Dirlenwi (Gweinyddiaeth) Yr Alban 2015/3*); wedi'u gwneud o dan bŵer a roddir yn adran 37 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 (yn amodol ar y weithdrefn negyddol).

**Adran 88(1) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas ag atebolrwydd rheolwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig i dalu'r LDT.**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â rheolwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig, ac eithrio i ddiffinio pwy sy'n rheolwr.

- Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas â rheolwyr, gan gynnwys gofynion hysbysu ac amgylchiadau lle y bydd rheolwr yn atebol i dalu LDT.

- Bwriedir i'r pŵer hwn alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol ac ymateb i'r hyn a ddysgir ar ôl i'r LDT gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, os yw'n briodol. Deellir ar hyn o bryd nad oes dim rheolwr safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn gweithredu yng Nghymru ac y bydd yn annhebygol y bydd angen y ddarpariaeth hon. Byddai'r ddarpariaeth hon yn ein galluogi i ymateb i newid pe bai datblygiadau yn y dyfodol.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Gwneir darpariaeth sylweddol ar rwymedigaeth eilaidd rheolwyr yn Rhan VIII o Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid 1996.

- Mae pŵer sy'n cyfateb i adran 88(1) yn adran 17(1) o Ddeddf Tirlenwi (yr Alban) 2014 (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol).

**Adran 90(1) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, neu atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth sydd yn y Bil (neu a wneir oddi tano).**

**Pam mae angen pŵer dirprwyedig?**

- Byddai'r pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer materion fel gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall sydd eu hangen yn sgil darpariaethau'r Bil hwn, neu i ymdrin â manylion nas rhagwelwyd sy'n deillio o weithredu'r system newydd.

- Nod elfennau trosiannol, arbed a chanlyniadol yw darparu ar gyfer y broses o symud o un system treth trafodiadau tirlenwi i'r llall, er mwyn i'r broses fod mor "ddi-dor" â phosibl a bod y gyfraith newydd yn gweithredu yn unol â'r bwriad.

- Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn yn eang ac mae'n gyfyngedig: ni ellir ei ddefnyddio i wneud dim sy'n groes i ddarpariaethau'r Bil y bydd y Cynulliad wedi'i ystyried a'i gymeradwy.

**Beth yw'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU a'r Alban?**

- Mae adran 71(9) yn darparu y gall unrhyw orchymyn neu reoliad a wneir o dan Adran 3 o Ddeddf Cyllid 1996 gynnwys darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol neu drosiannol fel sy'n ymddangos yn briodol neu'n fuddiol.

- Mae Adran 40(1) Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 yn caniatáu i Weinidogion yr Alban wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadau, trosiannol, darfodol neu arbed o'r fath fel y bo'n briodol a gall gorchymyn o'r fath addasu deddfiad.